



CYMUNEDAU CYNALIADWY >

Cynllun y sesiwn



Prince's Trust

**START
SOMETHING**

Mewn partneriaeth â:

**Howden Group
Holdings**

DATBLYGU CYNALIADWYA DINASYDDIAETH

CIPOLWGW

Dyma'r ail sesiwn yn yr uned 'Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth'. Yn y sesiwn yma byddwch chi'n ystyried beth allai cymuned gynaliadwy dda ei olygu, ac yn edrych ar astudiaethau achos. Bydd y dysgwyr hefyd yn datblygu eu creadigrwydd a'u sgiliau cyflwyno.

Cofiwch: Mae'r pwnc yma'n newydd ac yn datblygu, felly mae tystiolaeth a gwybodaeth newydd yn cael ei chyhoeddi bob dydd. Er ein bod ni'n ceisio cadw'r cynnwys yma'n gyfredol, rydym yn eich annog yn frwd i gynnwys unrhyw wybodaeth newydd ac wedi'i phrofi a allai ddod i'r amlwg.



DEUNYDDIAU

- ✓ Mynediad i'r rhyngrwyd
- ✓ Adnodd Cymunedau cynaliadwy
- ✓ Taflen waith Gweithgaredd yn y cartref
- ✓ Cyfrifiaduron â mynediad i'r rhyngrwyd (dewisol)
- ✓ Beiros, pinnau ffelt lliw a phapur



CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Cynaliadwyedd – Deilliannau Dysgu: Deall egwyddorion dinasyddiaeth fyd-eang; Deall egwyddorion cynaliadwyedd amgylcheddol

DEILLIANNAU DYSGU

- ✓ Enwi'r prif nodweddion sy'n diffinio cymuned gynaliadwy
- ✓ Egluro rhai o elfennau cymuned gynaliadwy, a sut mae'r rhain yn cael eu defnyddio yn y byd go iawn
- ✓ Datblygu sgiliau cyfathrebu'n weledol ac yn ysgrifenedig i hyrwyddo gweithgaredd neu sefydliad

GWEITHGAREDDAU

GWEITHGAREDD	AMSER	TUDALEN
<u>Cyflwyniad</u>	5-10 munud	<u>03</u>
<u>Adnodd Cymunedau cynaliadwy</u>	20-25 munud	<u>04</u>
<u>Astudiaeth achos gymunedol</u>	60 munud	<u>06</u>
<u>Dirwyn i ben</u>	10-15 munud	<u>07</u>

PWY SYDD WEDI CREU CYNLLUNY SESIWN YMA?

Cafodd cynllun y sesiwn yma ei greu ar y cyd â Justine Oakes. Mae Justine Oakes CEnv, MIEnvSc, MIEMA yn weithiwr proffesiynol ym maes yr amgylchedd, ac mae ganddi dros 25 mlynedd o brofiad yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Ar hyn o bryd, Justine yw'r Rheolwr Cynaliadwyedd ym Mhrifysgol Suffolk, a'r arweinydd Busnes ac Ymchwil ar gyfer Sefydliad Cynaliadwyedd Suffolk. Gan weithio mewn partneriaeth â chynlluniau cynaliadwyedd lleol a chenedlaethol, mae Prifysgol Suffolk yn brifysgol drawsnewidiol sy'n ymgorffori traddodiadau Prifysgol gorau'r Deyrnas Unedig, ac yn eu cysoni â byd modern o gyflogaeth ac entrepreneuriaeth.



CYFLWYNIAD >



AMSER

5-10 munud



DEUNYDDIAU

- ✓ Tafenni gwaith Gweithgaredd yn y cartref, wedi'u cwblhau (o'r sesiwn flaenorol)

CAMAU'R GWEITHGAREDD >

1. Esboniwch i'r dysgwyr y byddwch chi'n ystyried yn y sesiwn heddiw beth allai cymuned gynaliadwy ei olygu.
2. Gofynnwch i'r dysgwyr rannu'r hyn roedden nhw wedi'i ddysgu am y grwpiau roedden nhw wedi ymchwilio iddyn nhw ar gyfer y gweithgaredd yn y cartref yn y sesiwn flaenorol. Gallech ofyn:
 - Pa grŵp wnaethoch chi ymchwilio iddo?
 - Beth mae'r grŵp yn ei wneud i geisio gwneud y byd yn fwy cynaliadwy?
 - Pam mae gwaith y grŵp yn bwysig?
 - Beth oeddech chi'n ei hoffi fwyaf am y grŵp roeddech chi wedi ymchwilio iddo?



Prince's Trust

START
SOMETHING

Howden Group
Holdings

Session plan: Sustainable Communities | 03

CYMUNEDAU CYNALIADWY >



AMSER

20-25 munud



DEUNYDDIAU

- ✓ Adnodd Cymunedau cynaliadwy

CAMAU'R GWEITHGAREDD >

1. Mae'r gweithgaredd yma'n cyflwyno'r cysyniad o gymunedau cynaliadwy, ac yn dechrau ystyried beth allai cymuned gynaliadwy dda ei olygu.
2. Mae'r gweithgaredd yma'n cyflwyno'r cysyniad o gymunedau cynaliadwy, ac yn dechrau ystyried beth allai cymuned gynaliadwy dda ei olygu.
3. Wrth edrych ar y lluniau, gallech ofyn i'r dysgwyr:
 - Ar beth rydych chi'n sylwi yn y lluniau?
 - Oes gan y cymunedau yma bethau'n gyffredin?
 - Ydy'r llefydd yma'n edrych fel rhywle y bydden nhw'n hoffi byw? Pam?
4. Esboniwch fod cymunedau cynaliadwy yn llefydd lle mae pobl eisiau byw a gweithio, heddiw ac yn y dyfodol. Maen nhw'n diwallu anghenion niferus y trigolion presennol a thrigolion y dyfodol, ac yn gwarchod neu'n gwella'r amgylchedd a bywydau pobl.
5. Gofynnwch i'r dysgwyr:
 - Pa bethau ydych chi'n meddwl ddylai fod yn rhan o gymuned dda?
 - Pa fath o bethau sy'n gwneud rhywle'n lle braf i fyw a gweithio? Gallwch helpu i sbarduno trafodaeth drwy sôn am nodweddion cymuned gynaliadwy, sydd wedi cael eu rhestru isod.

NODWEDDION CYMUNED GYNALIADWY	BETH MAE HYN YN EI OLYGU
Yn weithgar, cynhwysol a diogel	<ul style="list-style-type: none">• Mae'n creu ymdeimlad o hunaniaeth gymunedol ac o berthyn i'r gymuned, ac mae pobl o bob diwylliant, cefndir a chred yn cael eu parchu a'u cynnwys• Cyfleoedd i wneud gweithgareddau diwylliannol, hamdden, cymunedol, chwaraeon a gweithgareddau eraill, ar gyfer pobl o bob oed• Lefelau isel o droseddu, cyffuriau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, gyda phlismaona gweladwy, effeithiol a chyfeillgar yn y gymuned
Yn ffynnu	<ul style="list-style-type: none">• Swyddi da a chyfleoedd hyfforddi• Llawer o fanteision a chyfleoedd i'r gymuned leol• Cymuned fusnes gref• Canol trefi atyniadol



NODWEDDION CYMUNED GYNALIADWY	BETH MAE HYN YN EI OLYGU
Yn cael ei rhedeg yn dda	<ul style="list-style-type: none"> • Arweinwyr sy'n sicrhau bod unigolion a sefydliadau'n cymryd rhan mewn ffordd gynhwysol, weithgar ac effeithiol • Ymgysylltu â'r gymuned ar lefel y gymdogaeth, gan gynnwys meithrin y gallu i ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a hyder y gymuned • Partneriaethau rhwng gwahanol grwpiau • Sector gwirfoddol, cymunedol a chynhwysol • Ymdeimlad o werthoedd, cyfrifoldeb a balchder
Yn amgylcheddol-sensitif	<ul style="list-style-type: none"> • Yn defnyddio ynni'n effeithlon, ac yn defnyddio ynni adnewyddadwy • Yn gwarchod yr amgylchedd drwy leihau llygredd ar y tir, yn y dŵr ac yn yr aer • Yn creu llai o wastraff, ac yn cael gwared arno mewn ffyrdd diogel • Yn defnyddio adnoddau naturiol yn dda • Yn gwarchod ac yn gwella bywyd gwylt • Yn creu cyfleoedd i gerdded a beicio • Yn lleihau llygredd sŵn • Yn cynnwys manau cyhoeddus braf
Cysylltiadau da, ac wedi cael ei dylunio a'i hadeiladu'n dda	<ul style="list-style-type: none"> • 'Teimlad' cadarnhaol i bobl a nodweddion unigryw lleol • Manau cyhoeddus a manau gwyrdd sy'n hwylus i bawb, gan gynnwys plant a phobl hŷn • Cartrefi fforddiadwy, amrywiol • Adeiladau o ansawdd uchel, sy'n defnyddio deunyddiau sy'n lleihau'r effeithiau negyddol ar yr amgylchedd • Adeiladau a manau cyhoeddus sy'n hybu iechyd, ac sydd wedi cael eu cynllunio i leihau troseddau ac i wneud i bobl deimlo'n ddiogel • Swyddi, cyfleusterau a gwasanaethau allweddol o fewn cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus, ar droed ac ar feic
Yn cael ei gwasanaethu'n dda	<ul style="list-style-type: none"> • Ysgolion, sefydliadau addysg bellach a sefydliadau addysg uwch lleol yn perfformio'n dda, a chyfleoedd eraill i ddysgu • Gofal iechyd a gwasanaethau cymdeithasol lleol o safon uchel • Gwasanaethau o safon uchel i deuluoedd, plant ac oedolion hŷn • Amrywiaeth dda o wasanaethau cyhoeddus, cymunedol, gwirfoddol a phreifat sy'n fforddiadwy
Yn deg i bawb	<ul style="list-style-type: none"> • Yn cydnabod hawliau a chyfrifoldebau pawb • Yn parchu hawliau a breuddwydion pobl eraill (mewn cymunedau cyfagos, ac ar draws y byd) • Yn ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol wrth wneud penderfyniadau a gweithredu



ASTUDIAETH ACHOS GYMUNEDOL



AMSER

60 munud



DEUNYDDIAU

- ✓ Fideo 'Moss Side community allotment': <https://youtu.be/gL1JGNqPjlo>
- ✓ Fideo 'Growing community, Moss Side community garden': https://youtu.be/o_gaAiyDxPE
- ✓ [Moss Side community allotment website](#)
- ✓ [Moss Side community allotment Facebook page](#)
- ✓ Cyfrifiaduron â mynediad i'r rhyngwyd (dewisol)
- ✓ Beiros, pinnau ffelt lliw a phapur



CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Cynllun(iau) sy'n hybu dinasyddiaeth fyd-eang
- ✓ Sefydliadau/cynlluniau sy'n gwarchod yr amgylchedd

CAMAU'R GWEITHGAREDD

1. Eglurwch i'r dysgwyr fod rhandir cymunedol Moss Side yn cael ei redeg gan bobl leol, a'i fod ar gael i'r rheini sydd â diddordeb mewn tyfu bwyd organig, gan ddatblygu'r gymuned ar yr un pryd.

Mae'r rhandir mewn ardal ym Manceinion a oedd yn arfer bod yn dir diffaith, a'r nod yw bod yn hunangynhaliol a dosbarthu bwyd am ddim i aelodau ac i bobl sydd ar gyflog isel yn eu cymuned amrywiol.

Gallech addasu'r gweithgaredd yma ar gyfer cynllun/rhandir tebyg yn eich ardal chi.

2. Os yw'n bosibl, chwaraewch fideos rhandir cymunedol Moss Side i'r dysgwyr. Ar ôl i chi chwarae'r fideos, gofynnwch i'r dysgwyr beth yw eu barn am y cynllun, a pham y byddai'n fuddiol i'r gymuned a'r amgylchedd.
3. Os oes modd i'r dysgwyr ddefnyddio cyfrifiaduron a'r rhyngwyd, rhwch y dolenni iddyn nhw ar gyfer y gwefannau sy'n cynnwys mwy o wybodaeth am rhandir cymunedol Moss Side. Os nad yw hynny'n bosibl, ewch i'r gwefannau cyn y sesiwn ac argraffu tudalennau perthnasol iddyn nhw eu defnyddio.
4. Wrth ddarllen am y rhandir, dylai'r dysgwyr geisio cofnodi 3-5 o ffeithiau allweddol am y rhandir, a manteision cymryd rhan.
5. Mewn parau neu grwpiau, dylai'r dysgwyr ddefnyddio'r wybodaeth maen nhw wedi'i chasglu i wneud un o'r canlynol:
 - Creu poster ar gyfer rhandir cymunedol Moss Side, sy'n rhoi gwybodaeth i bobl am y prosiect neu'n dangos manteision cymryd rhan ynddo
 - Dylunio ac ysgrifennu neges Instagram ar gyfer rhandir cymunedol Moss Side, sy'n rhoi gwybodaeth i bobl am y prosiect neu'n dangos manteision cymryd rhan ynddoGallai'r dysgwyr wneud hyn naill ai gyda phapur a phinnau ffelt neu ar gyfrifiadur. Os yw'r dysgwyr yn gweithio tuag at y cymhwyster, gellid defnyddio hyn i helpu i ddangos dealltwriaeth y dysgwyr.
6. Dylai'r parau/grwpiau gyflwyno eu posteri/negeseuon i weddill y grŵp. Dylech annog y parau/grwpiau eraill i ofyn cwestiynau ac i ddweud rhywbeth maen nhw'n ei hoffi am y poster/neges neu'r cyflwyniad.
7. Dewch â'r gweithgaredd yma i ben drwy drafod beth mae'r dysgwyr yn ei hoffi am y rhandir cymunedol, a sut mae o fudd i'r amgylchedd.



Prince's Trust

START
SOMETHING

Howden Group
Holdings

Session plan: Sustainable Communities | 06

DIRWYN I BEN >



AMSER

10-15 munud



DEUNYDDIAU

- ✓ Taflen waith Gweithgaredd yn y cartref

CAMAU'R GWEITHGAREDD >

1. Gorffennwch y sesiwn drwy ofyn beth mae'r dysgwyr wedi'i ddysgu yn y sesiwn yma. Beth mae'r term 'cymunedau cynaliadwy' yn ei olygu iddyn nhw erbyn hyn? Beth sy'n rhan o gymunedau cynaliadwy? Sut gall cymunedau lleol weithio tuag at fod yn gynaliadwy? (Gan ddefnyddio rhandir cymunedol Moss Side fel enghraifft).
2. Rhannwch y daflen waith 'Gweithgaredd yn y cartref'. Cyn y sesiwn nesaf dylai'r dysgwyr fynd ati, mewn ffordd ddiogel, i archwilio parc lleol, pwll, tir eich ysgol/lleoliad neu fan gwyrdd arall sydd gerllaw. Ar y daflen waith 'Gweithgaredd yn y cartref', fe ddylen nhw gofnodi planhigion, coed, adar a phryfed diddorol maen nhw wedi'u gweld, a dod â'r daflen waith gyda nhw i'r sesiwn nesaf.
3. Eglurwch i'r dysgwyr fod gwyllo byd natur yn ffordd bwysig o ddeall pa fathau o blanhigion a rhywogaethau sy'n bodoli yn eu cymuned. Os oes ganddyn nhw ffôn, efallai y bydden nhw am lwytho'r ap Seek i lawr, sydd ar gael am ddim gan iNaturalist. Bydd yr ap yn eu helpu i adnabod pethau, a byddan nhw'n gallu ennill bathodynau gwobrwyo.



Prince's Trust

START
SOMETHING

Howden Group
Holdings

Session plan: Sustainable Communities | 07